



Y PROSIECT

SWYDDFEYDD NEWYDD A GWAITH ARALL YNG NGLANNAU DYFRDWY

Y CLEIENT

HENROB

GWERTH Y CONTRACT

£3.4m

Y NOD

Yn rhan o'u strategaeth fusnes a'u cynlluniau ehangu ar gyfer y dyfodol, prynodd Henrob uned ddiwydiannol ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Eu bwriad oedd creu cyfleuster gweithgynhyrchu newydd hollol fodern yn yr adeilad ynghyd â swyddfeydd, labordai, ffreutur a gweithdai cysylltiedig.

Y DULL

Aethom ati i gyflwyno tendr ar gyfer y gwaith galluogi cychwynnol oedd yn cynnwys gosod fferm danc a chyfres o byllau peiriant, wedi eu hadeiladu o fewn ac islaw'r slabiau concrit oedd yno'n barod. Roedd amseriadau Henrob yn hynod o dynn ac roeddent yn arbennig o nerfus am y gwaith galluogi.

Wedi i ni gyflwyno ein tendr cafwyd proses gyfweld fanwl ac yn ystod honno aethom ati i ddangos ein galluoedd a thystiolaeth o'n sgiliau ar gyfer gwneud y gwaith.



Hollingsworth Group (UK) Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Roedd y gwaith o adeiladu'r pyllau peiriant yn arbennig o heriol gyda sylfaen y pyllau mwyaf fwy na dau fetr o dan lefel trwythiad. Aethom ati i osod system ddad-ddyfrío pwynt ffynnon llawn a gostwng y lefel trwythiad yn lleol er mwyn ein galluogi i adeiladu'r pyllau peiriant. Roeddem wedi cwblhau'r gwaith galluogi'n llwyddiannus cyn y dyddiad ar yr amserlen yn barod ar gyfer cyrhaeddiad y peiriant triniaeth gwres newydd o'r Almaen.

Yn dilyn llwyddiant y gwaith galluogi cawsom ein gwahodd i dendro am y gwaith o adeiladu'r swyddfeydd, y labordai, y ffreutur a'r gweithdai a chyfleusterau toiled newydd, yn cynnwys cawodydd ac ystafelloedd loceri. Roeddem yn llwyddiannus a rhoddwyd y contract i ni ar sail "Dylunio ac Adeiladu". Aethom ati i gymryd syniad dylunio sylfaenol y cleient a datblygu'r cynllun gyda'n Pensaer ein hunain. Trwy adolygiadau rheolaidd gyda Henrob aethom ati i ddatblygu'r dyluniau a chyflwyno arbenigwyr eraill megis ymgynghorydd acwstig i sicrhau na fyddai sŵn y lle cynhyrchu'n amharu ar bobl yn gweithio yn y swyddfeydd.

Hefyd cawsom y contract i adeiladu maes parcio i 180 o gerbydau a ffordd fynediad newydd. Aethom ati gyda Henrob i lunio manyleb a chynllun fyddai'n gweithio gyda'r gyllideb oedd ar gael ganddynt ac a oedd yn ateb y gofyn i fod yn un sy'n draenio'n rhydd i'r is-bridd islaw. Aethom ati i ddewis system grid sy'n cydgluo wedi'i lenwi gyda llechi mâl. Cyn gallu adeiladu'r maes parcio roedd yn rhaid i ni dorri a malu mwy na 2,000 m3 o slabiau concrit oedd yno'n barod ac y defnyddiwyd y rhan fwyaf ohonynt o dan y maes parcio newydd.

Y CANLYNIADAU

Roeddem wedi cwblhau pob cam o fewn y dyddiadau gofynnol felly roedd Henrob wedi gallu gosod a chomisiynu'r peiriannau cynhyrchu newydd a dechrau defnyddio'r cyfleuster.

CRYNODEB

Mae Henrob wrth eu boddau gyda'r ffatri newydd sydd wedi eu galluogi i gynyddu eu cynhyrchiad yn sylweddol. Mae eu hen ffatri'n mynd i gael ei ailosod i fod yn uned cynhyrchu arbenigol ac rydym wrthi'n eu helpu ar hyn o bryd gyda chostau cyllideb a chynghor ar gyfer y cam nesaf yma.

